# Cefnogi Gofalwyr mewn Gofal Cychwynnol

Un o'r blaenoriaethau allweddol eleni oedd adnabod a chefnogi gofalwyr trwy wasanaethau iechyd gofal cychwynnol. Gyda'r cyfyngiadau clo, mae gofyn wedi bod i ni feddwl yn fwy strategol am sut yr ydym yn rhoi cefnogaeth ymatebol yn y ffordd orau.

Wythnos Gofalwyr 7fed – 13eg Mehefin 2021

Gwybodaeth am ofalwyr ac addewidion gan randdeiliaid ar draws y rhanbarth.

Carers Week

# Ein gwaith gyda Fferyllfeydd




Mae gofalwyr ifanc wedi sôn yn aml am anawsterau fel casglu meddyginiaeth, cydnabyddiaeth a dealltwriaeth gan fferyllwyr o'u rôl gofalu ac ansicrwydd am y feddyginiaeth ei hun.

Ymunon ni ag ysgolion yn y rhanbarth a gofynnon ni i Ofalwyr Ifanc ddylunio poster i'w arddangos mewn fferyllfeydd ledled Gwent.

Dyluniwyd y poster buddugol gan Isaac C. ac fe'i danfonwyd at bob Fferyllfa.

Fy enw i yw Damien McCann a fi yw cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mlaenau Gwent ac rwy' hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Gofalwyr Rhanbarthol yng Ngwent.

*Rwy'n addo* gweithio hyd eithaf fy ngallu gyda gofalwyr a chydweithwyr mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i wrando, cefnogi a chanfod atebion i wneud rôl hanfodol gofalwyr mor gyfforddus a bodlon ag y gallwn ni.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

David Williams ydw i, Rheolwr Gwasanaeth

yn y Tîm Partneriaeth Ranbarthol

***Rwy'n addo*** gwneud fy ngorau i wneud yn siŵr bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed yn y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Fy enw i yw Melanie Laidler ac rydw i'n Rheolwr Cyffredinol ar gyfer Gofal Cychwynnol, yr Adran Gymunedol

***Rwy'n addo*** sicrhau bod gofalwyr yn ganolog wrth ein bod yn gwneud penderfyniadau ar ofal sy'n effeithio ar fywydau'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanyn  nhw pan fyddan nhw'n gadael gofal Ysbyty Cymunedol.

Helo, Brona Oakerbee ydw i a fi yw'r Swyddog Cefnogi Gofalwyr yn nhîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent.
*Rwy'n addo* fy ymrwymiad i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn ein cymunedau yn gallu cael y wybodaeth a'r cyngor cywir.



Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

Aneurin Bevan University Health Board
Gwent Carers Strategic Partnership

Cafodd Cynllun Grantiau Bach (CGB)
Partneriaeth Strategol Gofalwyr Gwent
ei ddatblygu i gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu

Mae’r cynllun yn cael ei gyflenwi gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru a chafodd ei gyflwyno i adlewyrchu blwch mewn darpariaeth cefnogaeth ariannol a oedd ar gael i helpu i gefnogi gofalwyr ochr yn ochr â’u rôl gofal, gan alluogi gofalwyr i ofyn am gymorth ariannol mewn categorïau penodol.

# Cynllun Grantiau Bach

## A total of 461 applications were considered by the panel in 2020/21 of which 364 were successful.

- Ystyriwyd cyfanswm o 461 o geisiadau gan y panel yn 2020/21 ac roedd 364 yn llwyddiannus.
- Roedd deilliannau’n cynnwys
    - Gwell cydnerthedd.
    - Llai o unigrwydd.
    - Gwell sefyllfa ariannol.
    - Mwy o amser i’w hunain/teuluoedd.
    - Gwell iechyd a lles.
    - Mwy o hyder
- Gwelwyd cynnydd eleni mewn galw gyda chyfartaledd o £11,000 y mis yn cael ei ddyrannu.

Aneurin Bevan University Health Board
Gwent Carers Strategic Partnership



Thank you for being Distance Aware
SAFE ZONE
My Pledge
My name is Kimmy and I am
a Student Nurse
I Pledge to listen, absorb and grow as a student in order to educate Carers.
My Pledge
My name is Connie and I am
Staff Nurse
I Pledge to Show Kindness to Carers So that I am aprochable and can Provide Support!
My Pledge
My name is and I am
I Pledge to
My Pledge
My name is and I am
I Pledge to SHARE MY SKILLS AND knowledge with carers and answer as many questions as I can.

Fy enw i yw Rachel Lee a fi yw Uwch Reolwr Nyrsio Ysbyty Sant Gwynllyw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Eleni ***rwy'n addo*** gweithio'n galed i sicrhau fod gofalu'n dod yn weladwy ac yn cael ei werthfawrogi gan hyrwyddo cefnogaeth i ofalwyr yn yr ysbyty.

Gyda chefnogaeth fy nghydweithwyr nyrsio ymroddedig, byddwn yn sicrhau bod yna wybodaeth hygyrch o ansawdd ar gael i ofalwyr, a byddwn yn cynnig cyngor yn cyfeirio at gyfarwyddiadur, llinell gymorth a fforymau ar-lein i sicrhau nad oes rhaid i neb ofalu ar eu pennau'u hunain.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Fy enw i yw Carol Taplin a fi yw'r Caplan Arweiniol yn Ysbyty Prifysgol y Faenor.

*__Rwy'n addo rhoi,__* ar gais, cefnogaeth fugeiliol, ysbrydol neu grefyddol i unrhyw ofalwr, o unrhyw ffydd neu heb ffydd, neu eu cyfeirio at gefnogaeth fwy priodol, yn ôl eu hanghenion unigol.

Department of
Chaplaincy
& Spiritual Care

Helo, fy enw i yw Amanda Whent, fi yw'r Nyrs Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Dementia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
***__Rwy'n addo__*** bod yn rhan o Grŵp Gofalwyr Dementia Rhanbarthol Gwent, codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chefnogi datblygiad gwasanaethau i ofalwyr di-dâl pobl sy'n byw gyda Dementia.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board



Helo, fy enw i yw Helen Thouless ac rydw i'n Orthoptydd. Fel rhan o'r Tîm Gofal Llygaid rydym yn asesu cleifion o bob oed ac yn deall faint o wahaniaeth mae gofalwyr yn gwneud i gleifion â golwg gwael.

Fel yr Orthoptydd Arweiniol Clinigol ar gyfer Strôc, rwy'n gweld bod y rheiny sy'n gofalu am ddioddefwyr strôc, sy'n canfod fod golwg eu hanwyliaid wedi ei effeithio dros nos, yn chwarae rhan bwysig wrth eu helpu i ymdopi yn eu bywydau pob dydd gyda newid mor sydyn a dramatig i'w byd.

Rydw i'n frwd iawn ynglŷn â chefnogi'r gofalwyr yma, ac

*Rwy'n addo* rhoi'r wybodaeth, y gefnogaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen arnyn nhw yn eu rôl newydd.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Fy enw i yw Lorraine Morgan a fi yw Cadeirydd Panel Dinasyddion Gwent. Fel Gofalwr di-dâl am y 40 mlynedd diwethaf, rwy'n deall ac yn ***addo*** y byddaf trwy fy rôl gyhoeddus ac yn bersonol yn cefnogi ac yn codi llais Gofalwyr di-dâl yn uwch.

Rydym yn neilltuo nifer o oriau at alluogi'r bobl yr ydym yn eu cefnogi i gael gwell ansawdd bywyd a dyheu yn ymarferol am yr hyn yr ydym i gyd am ei gyflawni.

Mae Gofalwyr yn bobl garedig a thosturiol sy'n brwydro mewn rhyfel, nid dim ond un frwydr.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board



# Cefnogaeth Gofalwyr ar draws y Rhanbarth

**Blaenau Gwent County Borough Council**
**Tel:** 01495 315700 (IAA Team)

**Web:** www.blaenau-gwent.gov.uk

**Caerphilly County Borough Council**
**Tel:** 0808 100 2500
**Email:** carers@caerphilly.gov.uk
**Web:** www.caerphilly.gov.uk/carers

**Monmouthshire County Council**
**Monmouthshire/Usk/Raglan**
**Tel:** 01600 773041
**Abergavenny**
**Tel:** 01873 735885
**Chepstow/Caldicot**
**Tel:** 01291 635666
**Web:** www.monmouthshire.gov.uk

**Newport City Council**
**Tel:** 01633 656656
**Email:** FirstContact.Adults@newport.gov.uk
**Web:** www.newport.gov.uk/carers

**Torfaen County Borough Council**
**Tel:** 01495 762200

**Email:** callfortorfaen@torfaen.gov.uk
**Web:** www.torfaen.gov.uk

**Gwent Carers Hub**
**Tel:** 01495 367564
**Email:** gwentcarershub@ctsew.org.uk
**Web:** www.ctsew.org.uk/gwent-carers-hub